

CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS GWASANAETHAU TECHNEGOL

DYDD Iau, 26 Mai 2016

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd: H.A.L. Evans (Aelod o'r Bwrdd Gweithredol)

Roedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:

S. Pilliner, Pennaeth Trafnidiaeth a Pheirianneg
J. McEvoy, Rheolwr Traffig a Diogelwch Ffyrdd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

Ystafell 65, Neuadd y Sir, Caerfyrddin 10.00am – 10.30am

1. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

2. COFNOD PENDERFYNIADAU - 1AF MAWRTH 2016

PENDERFYNWYD Ilofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 1^{af} Mawrth, 2016 yn gofnod cywir.

3. GWRTHWYNEBIADAU I'R BWRIAD I GYFLWYNO GORCHYMYN TRAFFIG UNFFORDD YN GILBERT CRESCENT A PROSPECT PLACE, LLANELLI

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a gynhwysai sylwadau/gwrthwynebiadau ac ymatebion a oedd wedi dod i law ynghylch cynnig i gyflwyno system unffordd yn Gilbert Crescent a Prospect Place, Llanelli, ar ôl cyhoeddi'r gorchmynion drafft ynghylch y rheoliadau parcio yn y wasg leol. Y farn oedd y byddai'r cynnig yn cyd-fynd â'r systemau unffordd presennol yn yr ardal gyfagos ac yn lleihau'r problemau traffig ar hyd y strydoedd hyn. Nid oedd gwrthwynebiad wedi dod i law gan yr ymgynghorwyr statudol. Roedd y Cyngor Sir o'r farn fod y mesurau'n ddymunol er budd diogelwch ffyrdd.

PENDERFYNWYD

- 3.1 nodi'r gwrthwynebiadau, fel yr oeddent yn yr adroddiad;**
- 3.2 gweithredu'r cynigion, fel yr oeddent yn Atodiad 1 i'r adroddiad;**
- 3.3 rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyr a'r Aelodau lleol yn unol â hynny.**

4. GWRTHWYNEBIADAU I'R BWRIAD I GYFLWYNO TALIADAU PARCIO YM MAES PARCIO'R GANOLFAN HAMDDEN, LLANELLI

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a gynhwysai sylwadau/gwrthwynebiadau ac ymatebion a oedd wedi dod i law, ar ôl cyhoeddi yn y wasg leol, ynghylch cynnig i gyflwyno taliadau parcio i reoli'r defnydd o faes parcio Canolfan Hamdden Llanelli, a oedd hefyd yn cael ei ddefnyddio gan bobl nad oeddent yn defnyddio'r Ganolfan Hamdden, megis busnesau a chymudwyr. Yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a oedd wedi dod i law, bernid y gellid, am gyfnod prawf, barhau i barcio am ddim o dan y cynigion am y *tair* awr gyntaf er budd defnyddwyr y Ganolfan Hamdden.

PENDERFYNWYD

- 4.1 nodi'r gwrthwynebiadau, fel yr oeddent yn yr adroddiad;**
- 4.2 gweithredu'r cynigion, fel yr oeddent yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad, ar yr amod bod y 3 awr gyntaf am ddim a bod adolygiad yn cael ei**

gynnal ymhen 6 mis;

4.3 rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyd a'r Aelodau lleol yn unol â hynny.

5. GWRTHWYNEBIAAU I GYFYNGIAD TRAFFIG UNFFORDD YN RHODFA'R GOGLEDD A'R GOEDLAN, CAERFYRDDIN

Rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a gynhwysai sylwadau/gwrthwynebiadau ac ymatebion a oedd wedi dod i law ar ôl ymgynghoriad rhagarweiniol ag ymgynghoreion statudol ynghylch cynnig i gyflwyno cyfyngiad traffig unffordd yn Rhodfa'r Gogledd a'r Goedlan, Caerfyrddin. Y farn oedd y byddai'r cynnig yn creu mynediad newydd i gerbydau er mwyn hwyluso addasu safle yr hen ysbyty, a oedd yn adeilad rhestredig.

PENDERFYNWYD

5.1 nodi'r gwrthwynebiadau, fel yr oeddent yn yr adroddiad;

5.2 hysbysebu'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig;

5.3 rhoi gwybod i'r gwrthwynebwyd a'r Aelodau lleol yn unol â hynny.

6. SHOPMOBILITY LLANELLI

Gan gyfeirio at gofnod 2 o'r cyfarfod a oedd wedi'i gynnal ar 17^{eg} Medi 2015, rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar gais gan Shopmobility Llanelli am gymorth ariannol pellach gan y Cyngor am y flwyddyn bresennol, sef £12,500.00.

PENDERFYNWYD rhoi grant pellach o £12,500.00 i Shopmobility Llanelli o'r Grant Cynnal Gwasanaeth Bysiau am y flwyddyn ariannol bresennol, yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad.

7. SHOPMOBILITY CAERFYRDDIN

Gan gyfeirio at gofnod 3 o'r cyfarfod a oedd wedi'i gynnal ar 17^{eg} Medi 2015, rhoddodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i adroddiad a fanylai ar gais gan Shopmobility Caerfyrddin am gymorth ariannol pellach gan y Cyngor am y flwyddyn bresennol, sef £13,596.00.

PENDERFYNWYD rhoi grant pellach o £13,596.00 i Shopmobility Caerfyrddin o'r Grant Cynnal Gwasanaeth Bysiau am y flwyddyn ariannol bresennol, yn amodol ar yr amodau yn yr adroddiad.

Y CADEIRYDD

Y DYDDIAD